# CYTUNDEB LEFEL GWASANAETH: 2020 – 2023 - DRAFFT

## GWASANAETH LLYFRGELL I YSGOLION

## YSGOLION CYNRADD, YSGOLION DILYNOL (ADRAN OEDRAN CYNRADD), YSGOLION ARBENNIG A CHANOLFANNAU IAITH

Mae'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth hwn yn weithredol i'r ysgolion a'r Canolfannau Iaith hynny lle ceir disgyblion dan 12 oed, a'r holl ddisgyblion sy'n mynychu Ysgolion Arbennig, lle bo'r lleoliadau hyn dan reolaeth Adran Addysg Cyngor Gwynedd.

Byddwn yn darparu'r gwasanaethau isod er mwyn cefnogi darllen a llythrennedd plant, a chefnogi athrawon wrth ddarparu adnoddau cyfoes ac addas i gyflenwi'r cwricwlwm dysgu ar lawr dosbarth.

**Llyfrgell Deithiol** - Byddwn yn cynnig ymweliadau gan y Llyfrgell Deithiol ddwywaith y flwyddyn Addysgol, unwaith yn ystod Tymor yr Hydref, ac yna unwaith rhwng dechrau Tymor y Gwanwyn a diwedd tymor yr Haf, er mwyn rhoi'r cyfle i bob disgybl gael dewis o leiaf un llyfr yn Gymraeg ac un llyfr yn Saesneg bob tro, a hynny er mwyn cefnogi darllen er pleser.

Byddwn yn sicrhau fod yr adnoddau hyn yn cael eu cylchdroi'n rheolaidd a byddwn yn sicrhau bod dewis eang o'r llyfrau mwyaf cyfoes a phoblogaidd ar gael.

Mae hawl gan y disgyblion i fynd a'r llyfrau hyn gartref gyda hwy. Ni fyddwn yn codi tal ar ysgolion am lyfrau na ddychwelir i ni o ganlyniad i ddifrod neu golled. Benthycir y llyfrau am 6 mis neu than ymweliad nesaf y Llyfrgell Deithiol.

Os yw'r ysgol wedi'i lleoli ar fwy nag un campws, yna bydd y Llyfrgell Deithiol yn ymweld â phob safle er mwyn rhoi gwasanaeth cyfartal i bob disgybl.

Rhaid i Ysgol/Canolfan Iaith roi rhybudd digonol i ni os bydd angen canslo neu ail-drefnu ymweliad. Nid ydym yn gwarantu ymweliad arall i ysgol os y'n hysbysir ar y dydd nad oes angen gwasanaeth y Llyfrgell Deithiol.

Disgwylir i staff ysgol oruchwylio plant tra eu bont ar y cerbyd Llyfrgell Deithiol ar bob achlysur.

**Adnoddau i Athrawon** - Byddwn yn ymateb i bob cais gan athro/athrawes am ddeunyddiau ac adnoddau dysgu a bydd unrhyw becyn yn cael ei deilwra ar gyfer anghenion unigol. Byddwn yn paratoi ac yn dosbarthu pecynnau o adnoddau o fewn yr amser lleiaf posib, ond bydd oedi anorfod os oes rhaid archebu adnoddau yn arbennig i ateb y cais.

Byddwn yn hysbysu pob athro/athrawes os oes oedi hir am fod gyda darparu adnoddau.

Byddwn yn cynnwys ystod lawn, berthnasol a diddorol o adnoddau amrywiol ym mhob pecyn, a hynny i adlewyrchu gofynion y thema a’r ystod oedran dan sylw. Bydd pob pecyn lle gallwn a lle bo hynny’n briodol, yn cynnwys llyfrau ffuglen a ffeithiol yn Gymraeg a Saesneg, aml-gopïau lle bo angen, teitlau unigol, Sachau Stori, Bocsys thema a Bocsys Arteffactau.

Byddwn yn cludo a chasglu'r pecynnau i/o’r ysgol neu’r llyfrgell gyfagos.

Cadwn yr hawl i gyfyngu ar adnoddau ar adegau o alw trwm.

Byddwn yn benthyg yr adnoddau hyn am gyfnod o dymor ac mae modd adnewyddu unrhyw becyn neu eitem am dymor arall.

Disgwylir i adnoddau gael eu dychwelyd atom ar ddiwedd y tymor pan fydd y Llyfrgell yn gwneud trefniadau i ddod i’w casglu, neu pan fydd y Llyfrgell Deithiol yn galw nesaf.

**Gweithgareddau Cefnogol** - Byddwn yn cynnig y cyfle i gymryd rhan yn y canlynol yn ystod hyd y cytundeb.

- Darllen Dros Gymru: y Gystadleuaeth Llyfrau Cymraeg i blant oed Cynradd
- Ymweliadau dosbarth i lyfrgelloedd lle caiff pob disgybl gerdyn llyfrgell eu hunain
- Ymweliadau gan awduron/sioeau/storïwyr - ar gael ar sail achlysurol a thros hyd y cytundeb.
- Gwybodaeth am lyfrau yn cynnwys rhestrau arweiniol o lyfrau addas i’w prynu a theitlau addas ar gyfer gofynion arbennig.

**Cyngor proffesiynol** - Am gost ychwanegol ar sail cost yr awr, cynigir cyngor a gwasanaeth i ysgolion gan Lyfrgellydd ar gynllunio, datblygu a threfnu llyfrgelloedd ysgol, chwynnu a gwaredu stoc.

**NG/11/2019**